# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AM OES
# 26 TACHWEDD 2020

**PWNC:** **RHAGLEN BAND B ADDYSG AC YSGOLION AR GYFER YR 21AIN GANRIF – ADRODDIADAU YMGYNGHORI**

**AWDUR YR ADRODDIAD:** **CYFARWYDDWR ADDYSG A GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Diben yr adroddiad yw rhoi diweddariad i'r Aelodau Craffu ar gynigion rhaglen Band B Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif o ran:

- **Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon**
  Adleoli Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon i ysgol ddarpariaeth Gymraeg bwrpasol newydd i'w lleoli ar hen safle gwag Ysgol Uwchradd Cwmcarn

- **Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod**
  Ehangu Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod bresennol, trwy adeiladu estyniad newydd i'r adeilad a lle chwarae awyr agored

1.2 Gofynnir i'r aelodau ystyried y wybodaeth a gynhwysir yn y ddau adroddiad a chadarnhau'r argymhellion i'r Cabinet er mwyn symud ymlaen i'r Hysbysiad Statudol mewn perthynas â'r ddau gynnig.

## 2. CRYNODEB

2.1 Mae'r cynigion Band B Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif ar gyfer Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod ac Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon wedi bod trwy ymgynghoriad ffurfiol rhwng 14 Medi 2020 a 26 Hydref 2020.

2.2 Er mwyn cyflawni dyletswydd y Cyngor o dan God Trefniadaeth Ysgolion 2018 mae nawr yn ofynnol i aelodau'r Cabinet roi ystyriaeth briodol i gynnwys pob Adroddiad Ymgynghori a phenderfynu a yw'n briodol neu beidio i symud ymlaen i gam nesaf y broses.

## 3. ARGYMHELLION

3.1 Gofynnir i'r Aelodau wneud fel a ganlyn:

a) Nodi'r wybodaeth a gynhwysir yn y ddau adroddiad ymgynghori.

b) Cadarnhau'r argymhellion i'r Cabinet er mwyn symud ymlaen i'r Hysbysiad Statudol mewn perthynas â'r ddau gynnig.

## 4. RHESYMAU AM YR ARGYMHELLION

4.1 Sicrhau bod yr Aelodau'n cael diweddariad ar sut mae'r Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif yn dod ymlaen a gofyn barn yr Aelodau ar yr argymhellion i'r Cabinet er mwyn symud ymlaen i gyhoeddi'r Hysbysiad Statudol o ran y ddau gynnig.

## 5. YR ADRODDIAD

### 5.1 Band B

5.1.1 Mae nodau allweddol y rhaglen fuddsoddi Band B Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21$^{ain}$ Ganrif, wedi'u hamlinellu gan Lywodraeth Cymru fel a ganlyn:

- Lleihau nifer yr ysgolion mewn cyflwr gwael.
- Sicrhau bod gennym ysgolion y maint cywir ac yn y lleoliad cywir, darparu digon o leoedd i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg.
- Sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o'r ystâd addysgol i'w defnyddio gan Ysgolion a'r Gymuned ehangach.

5.1.2 Y ddau gynllun cyntaf a bennwyd i gael blaenoriaeth ar gyfer Cyfnod 1 y rhaglen Band B yw ehangu Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod ac adleoli ac ehangu Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon.

5.1.3 Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cabinet ym mis Mawrth 2020, cafwyd ymgynghori ffurfiol ar y ddau gynnig, rhwng 14 Medi 2020 a 26 Hydref 2020.

5.1.4 Fe ysgrifennwyd at restr benodedig o dderbynwyr fel yr amlinellir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018, a chyhoeddwyd dogfen ymgynghori, ar bapur ac yn electronig trwy gyfrwng gwefan yr Awdurdod. Fe hyrwyddwyd mynediad rhesymol at wybodaeth o ran Cydraddoldeb, ac roedd ar gael mewn fformatau eraill ar gais, yn cynnwys fersiwn ar gyfer plant, a fideo. Yn ogystal, ar gyfer y cynnig i Gae'r Drindod, fe gynhwyswyd Chwaraeon Cymru a Chlwb Rygbi Penallta fel rhai i ymgynghori â hwy.

5.1.5 Fe wnaeth Aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg a wnaeth gyfarfod ar 22 Medi gadarnhau'r ddau gynnig.

5.1.6 Roedd y cyfnod ymgynghori'n rhedeg am 42 diwrnod (gydag o leiaf 20 o'r rheiny'n ddyddiau ysgol) er mwyn rhoi amser digonol i ymateb, a chafodd yr ymatebion a ddaeth i law eu hystyried yn gydwybodol.

5.1.7 Cafwyd 388 o ymatebion ar gyfer Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon a 1,047 ar gyfer Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod. Mae manylion o'r rhain i'w gweld yn yr Adroddiadau Ymgynghori perthnasol.

5.1.8 Cafodd Adroddiadau Ymgynghori eu llunio ar gyfer y ddau gynnig ac maen nhw ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad hwn. Mae'r adroddiadau Ymgynghori'n crynhoi pob un o'r materion a godwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwy. Cafodd unrhyw bryderon a godwyd wrth gasglu barn y rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn ystod y broses ymgynghori ymateb iddynt trwy roi eglurhad a rhesymau i gefnogi hynny. Yn ogystal, rhoddodd Estyn ymateb ffurfiol o ran ystyried agweddau addysgol y cynnig, sydd wedi'i gynnwys yn yr Adroddiadau Ymgynghori.

5.1.9 Bydd yr Adroddiadau Ymgynghori'n cael eu cyhoeddi'n electronig ar dudalennau Ysgolion yr 21ain Ganrif ar wefan y Cyngor. Bydd y rhai yr ymgynghorwyd â hwy, ac a ddywedodd yn eu hymateb eu bod eisiau cael eu hysbysu, yn cael llythyr neu e-bost i ddweud bod yr adroddiadau ymgynghori ar gael. Bydd hynny hefyd yn digwydd gyda rhanddeiliad allweddol a enwir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Bydd fersiwn addas i blant o'r Adroddiad Ymgynghori hefyd yn cael ei gyhoeddi.

5.2 **Casgliad**

Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, mae ymgynghori ffurfiol wedi gorffen erbyn hyn o ran y ddau gynnig. Cafodd yr adroddiad hwn ei lunio i roi'r wybodaeth angenrheidiol mae'r Aelodau ei hangen ar gyfer penderfynu a ddylid symud ymlaen gyda'r ddau brosiect i'r cam statudol nesaf, fyddai'n cynnwys caniatâd i gyhoeddi Hysbysiad Statudol. O dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 mae cyfle i unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgol wneud hynny ar yr adeg honno.

## 6. **RHAGDYBIAETHAU**

6.1 Ni ddaethpwyd i unrhyw ragdybiaethau mewn perthynas â'r adroddiad hwn gan ei fod ddim ond yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar sut mae prosiectau unigol yn dod ymlaen.

## 7. CYSYLLTIADAU I BOLISÏAU PERTHNASOL Y CYNGOR

7.1 Stategaeth Gyrhaeddiad Caerffili: Codi Safonau a sicrhau bod ein dysgwyr yn iach, yn hyderus, yn falch ac yn uchelgeisiol a'u bod yn gallu elwa ar gyfleoedd, lleoliadau a phrofiadau addysgol o ansawdd.

7.2 **Cynllun Corfforaethol 2018-2023.**

Bydd y cynnig sydd wedi'i amlinellu yn y ddogfen hon yn cyfrannu at yr Amcanion Llesiant Corfforaethol, yn enwedig y rhain:

Amcan 1 – Gwella cyfleoedd addysg i bawb

Amcan 2 – Galluogi cyflogaeth

## 8. LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

8.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. O dan y ddeddf hon mae’n ofynnol i gyrff cyhoeddus feddwl am y tymor hir, gweithio gyda phobl a chymunedau, ceisio atal problemau a dilyn dull gweithredu cyson. Bydd hyn yn creu Cymru rydym i gyd eisiau byw ynddi, nawr ac yn y dyfodol. Mae’r ddeddf yn gosod saith nod llesiant:

- Cymru lewyrchus.
- Cymru gydnerth.
- Cymru iachach.
- Cymru sy’n fwy cyfartal.
- Cymru o gymunedau cydlynus.
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu.
- Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

8.2 Mae’r ddeddf yn gosod allan yr egwyddor datblygu cynaliadwy y dylai pob corff cyhoeddus ei ddefnyddio i asesu eu gwaith o wneud penderfyniadau. Nod y ddeddfwriaeth yw sicrhau llesiant cenedlaethau’r dyfodol trwy fod cyrff cyhoeddus yn cyfrannu gymaint ag y bo modd tuag at y nodau llesiant. Wrth ddefnyddio’r egwyddor o ddatblygiad cynaliadwy, mae angen i’r awdurdod ystyried y boblogaeth gyfan mae’n ei gwasanaethu ac ystyried effeithiau gweithredu ar genedlaethau’r dyfodol. Mae’r egwyddor hon, sydd hefyd yn cael ei hadnabod fel y pum ffordd o weithio, yn cael ei hasesu isod:

- **Tymor Hir –** Defnyddiwyd rhagolwg o niferoedd disgyblion i weld beth fydd y galw am leoedd ysgol, i sicrhau bod digon o leoedd Addysgol yn ein hysgolion. Defnyddiwyd y wybodaeth hon i flaenoriaethu ysgolion yn y Cynllun Trefniadaeth Ysgolion.
- **Atal –** Bydd gwella ansawdd yr ystâd Addysg yn gyffredinol yn cefnogi disgyblion yn eu deilliant addysgol a sgiliau yn y tymor hir, yn yr ystyr eu bod yn fwy tebygol o lwyddo os yw eu profiad Addysgol yn un cadarnhaol.
- **Integreiddio –** Mae Rhaglen Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif yn destun i asesiad BREEAM a bydd Buddion Cymunedol cynigion unigol yn cael eu hasesu a’u monitro ar gyfer eu heffaith ar economi Cymru. Mae’r cynigion hefyd yn rhan o strategaeth i hyrwyddo’r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru.
- **Cydweithredu –** Mae Rhaglen Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif yn fater o gydweithrediad rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru i wella ansawdd yr ystâd Addysg.
- **Ymwneud –** Trwy gydol y broses ymgynghori bydd y Cyngor yn sicrhau bod ymgysylltu llawn yn digwydd gyda’r holl randdeiliaid perthnasol e.e. rhieni, disgyblion a’r gymuned leol. Gweithio mewn partneriaeth rhwng Rhaglen Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif a’r Is-adran Blynyddoedd Cynnar sy’n gweithio gyda’r sector gwirfoddol.

## 9. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB

9.1 Gwnaethpwyd yr holl Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer prosiectau unigol cyn symud i’r cyfnod ymgynghori. Roeddent ar gael i unrhyw un a oedd yn dymuno cael copïau, yn ogystal â bod yn rhan o bob pecyn ymgynghori sy’n cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

9.2 Mae'r cynigion ar gyfer Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon yn cysylltu gyda Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a'r Strategaeth Iaith Gymraeg bum mlynedd 2017-2022. Felly byddant yn cael effaith gadarnhaol ar Addysg Cyfrwng Cymraeg ac ar hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned ehangach.

9.3 Bydd y cynigion mewn perthynas ag Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar y plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol sy'n mynychu'r Ysgol nawr ac yn y dyfodol.

## 10. GOBLYGIADAU ARIANNOL

10.1 Cytunwyd yn gynharach i ddyrannu £6.475 miliwn i Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ac arian cyfatebol y rhaglen Addysg.

10.2 Mae Cyfnod 1 y rhaglen, sef ehangu Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod ac adleoli ac estyn YGG Cwm Gwyddon, yn gyfanswm o £22,002,921. Cyfraniad yr Awdurdod o fewn y swm hwn yw £6.451m.

## 11. GOBLYGIADAU PERSONÉL

11.1 Bydd hyn yn dibynnu ar gynigion penodol ac mae wedi cael ei ystyried fel rhan o'r broses ymgynghori.

## 12. YMGYNGHORIADAU

12.1 Cafodd yr adroddiad drafft ei ddosbarthu fel gwelir isod. Cafodd yr holl sylwadau a ddaeth i law eu hadlewyrchu yn y fersiwn yma o'r adroddiad.

## 13. PŴER STATUDOL

13.1 Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (Llywodraeth Cymru)
Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

Awdur: Andrea West, Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif

Ymgynghorwyd â'r rhain:
Christina Harrhy, Prif Weithredwr
Richard Edmunds, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Dave Street, Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol
Mark S. Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau
Y Cynghorydd Ross Whiting, Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad
Y Cynghorydd Teresa Parry, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg
Y Cynghorydd Carol Andrews, Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg
Steve Harris, Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151
Keri Cole, Prif Swyddog Addysg
Sue Richards, Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg
Sarah Ellis, Arweinydd Cynhwysiad ac Anghenion Addysg Arbennig
Sarah Mutch, Rheolwr Blynyddoedd Cynnar
Paul Warren, Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion
Jane Southcombe, Rheolwr Gwasanaethau Ariannol

Lynne Donovan, Pennaeth Gwasanaethau Pobl
Anwen Cullinane, Uwch Swyddog Polisi (Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ymgynghori)
Rob Tranter, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro
Ros Roberts, Swyddog Gwella Busnes
Mark Williams, Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Eiddo
Steve Pugh, Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol

Papurau Cefndir:

Atodiadau:

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Adroddiad Ymgynghori – Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae’r Drindod |
| Atodiad 2 | Adroddiad Ymgynghori – Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon |